ColegauCymru
CollegesWales

# Llunio dyfodol addysg bellach – darparu Cymru gryfach, wyrddach a thecach

**Cynhadledd Flynyddol 2023**

# Shaping the future of further education – delivering a stronger, greener, and fairer Wales

**Annual Conference 2023**

**12 Hydref 2023**
Hilton, Caerdydd

**12 October 2023**
Hilton, Cardiff

# Trosolwg o'r Gynhadledd / Conference Overview

**Mae'n bleser gan ColegauCymru eich croesawu i'n Cynhadledd Flynyddol yng Nghaerdydd.**

Gydag agenda lawn, mae'r Gynhadledd yn addo dod â rhanddeiliaid allweddol, addysgwyr ac arweinwyr diwydiant, o bob rhan o Gymru a thu hwnt, ynghyd, i ddangos gwerth addysg bellach. Byddwn yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o gyfnod heriol tra hefyd yn edrych i'r dyfodol, gan archwilio cylch gwaith cynlluniau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i ailwampio'r strategaeth, y cyllid a'r trosolwg o addysg ôl-16 yng Nghymru, yn unol â'u gweledigaeth uchelgeisiol dros Gymru gryfach, wyrddach a thecach.

**ColegauCymru is delighted to welcome you to our Annual Conference in Cardiff.**

With a packed agenda, the Conference promises to bring together key stakeholders, educators and industry leaders, from across Wales and beyond, to demonstrate the value of further education. We'll reflect on learnings from a challenging period but will also look to the future, exploring the remit of the ambitious Welsh Government plans to overhaul the strategy, funding and oversight of post-16 education in Wales, in line with their ambitious vision for a stronger, greener and fairer Wales.

## Cynnwys / Contents


3 — Croeso / Welcome

4-5 — Agenda

7-21 — Siaradwyr / Speakers

14-19 — Gweithdai / Workshops

24-28 — Noddwyr / Sponors

# Croeso gan y Cadeirydd a Prif Weithredwr
# Welcome from the Chair and Chief Executive



**Guy Lacey**

Cadeirydd ColegauCymru,
ColegauCymru Chair

Croeso i Gynhadledd ColegauCymru 2023. Fel sefydliadau arloesol cyson, ein hangerdd yw helpu eraill i drawsnewid eu cyfleoedd a chyflawni eu nodau. Dyma ein gwir werth cyhoeddus, ein cenhadaeth, a'n pwrpas.

Rydym yn gweithio i gynyddu gwerth cyhoeddus ehangaf posibl gwasanaethau addysg - cefnogi staff a hyrwyddo dysgwyr i ennill sgiliau galwedigaethol newydd, dilyn astudiaethau academaidd bellach, a chymryd rhan mewn addysg gydol oes.

Mae ein cynhadledd yn gyfle i archwilio rôl a phŵer colegau fel sefydliadau angori a rhannu sut y gallwn gydweithio i ddarparu addysg bellach o safon fyd-eang i Gymru.

Welcome to ColegauCymru Conference 2023. As constantly innovative organisations, our passion is helping others to transform their opportunities and achieve their goals. This is our true public value, our mission, and our purpose.

We work to maximise the widest possible public value of education services - supporting staff and championing learners to gain new vocational skills, pursue further academic study, and participate in lifelong learning.

Our conference is an opportunity to explore the role and power of colleges as anchor institutions and share how we can work together to deliver world class further education for Wales.

---



**David Hagendyk**

Prif Weithredwr ColegauCymru,
ColegauCymru Chief Executive

Dim ond gyda chefnogaeth ein haelodau, partneriaid a noddwyr y mae gwaith a digwyddiadau ColegauCymru yn bosibl. Drwy fynychu'r Gynhadledd yma heddiw, rydych yn rhan o'r gymuned sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol, cefnogi dysgu cyfle cyntaf ac ail gyfle, a thrawsnewid Cymru yn gymdeithas decach, wyrddach a mwy cynhwysol.

Edrychwn ymlaen at ddiwrnod o sgyrsiau ysgogol, gan herio ein dealltwriaeth bresennol o'r gwerthoedd sydd eu hangen arnom i helpu i lunio ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer addysg bellach, wrth i ni barhau i feithrin cydweithio, amrywiaeth ac arloesedd ar draws ein sector. Diolch.

The ColegauCymru work and events are only possible with the support of our members, partners and sponsors. By attending today's Conference, you are part of the community seeking to tackle educational inequality, support first and second chance learning, and transform Wales into a fairer, greener and more inclusive society.

We look forward to a day of stimulating conversation, challenging our current understanding of the values we need to help shape our common vision for further education, as we continue to build collaboration, diversity, and innovation across our sector. Thank you.

# Agenda

| | |
|---|---|
| 8.00 - 9.00 | **Cofrestru, Lluniaeth a Rhwydweithio** |
| 9.00 - 9.20 | **Croeso a gorolwg:** Guy Lacey, Cadeirydd, ColegauCymru |
| 9.20 - 10.00 | **Trafodaeth Banel: System sgiliau sy'n gweithio i Gymru – heriau a chyfleoedd cyd-destunol**<br>Siân Cartwright, Professor Richard Wyn Jones, Dave Hagendyk, Louise Warde Hunter, Gwyneth Sweatman |
| 10.00 - 10.15 | **Anerchiad Gweinidogol Llywodraeth Cymru:**<br>Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg |
| 10.15 - 10.30 | **Y Gweinidog mewn sgwrs:** Jeremy Miles AS a Jeff Greenidge |
| 10.30 - 10.45 | **Cyflwyniad gan y Prif Noddwr:** Angharad Lloyd-Beynon, City & Guilds |
| 10.45 - 11.30 | **Lluniaeth, Rhwydweithio ac Arddangosfeydd** |
| 11.30 - 12.30 | **GWEITHDAI'R BORE** |
| | Sophia **1.** Edrych tuag at Gymru Wrth-hiliol 2030<br>Ballroom **2.** Adeiladu strategaeth addysg alwedigaethol i Gymru<br>Roath **3.** Llunio dyfodol dwyieithog i addysg bellach<br>Victoria **4.** Llywio cyfleoedd a heriau AI mewn colegau |
| 12.30 - 1.30 | **Cinio, Rhwydweithio ac Arddangosfeydd** |
| 1.30 - 2.30 | **GWEITHDAI'R PRYNHAWN** |
| | Ballroom **5.** Sut y gall ymweliadau a phartneriaethau rhyngwladol wella a chyfoethogi dysgu ac addysgu ar draws y sector<br>Sophia **6.** Lles Actif mewn AB: Colegau Actif - Bywydau Actif - Cymru Actif<br>Victoria **7.** Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach<br>Roath **8.** Dyfodol Newydd Cymru: Cefnogi menywod i fyd technoleg |
| 2.30 - 3.00 | **Lluniaeth, Rhwydweithio ac Arddangosfeydd** |
| 3.00 - 3.05 | **Croeso Prynhawn:** Lisa Thomas, Is-Gadeirydd ColegauCymru |
| 3.05 - 3.30 | **Trafodaeth banel: Profiad y Dysgwr**<br>Rocio Cifuentes, Lilly Phillips, Orla Tarn, Lisa Thomas |
| 3.30 - 4.00 | **Myfyrdodau'r Gynhadledd ac edrych i'r dyfodol**<br>**Mewn sgwrs:** Simon Pirotte a Suzy Davies |
| 4.00 - 4.15 | **Sylwadau i gloi'r Gynhadledd**: Guy Lacey, Cadeirydd, ColegauCymru |
| 4.15 | **Cynhadledd yn cloi** |

# Agenda

| | |
|---|---|
| 8.00 - 9.00 | **Registration, Refreshments and Networking** |
| 9.00 - 9.20 | **Conference Welcome and Scene Setting:** Guy Lacey, ColegauCymru Chair |
| 9.20 - 10.00 | **Panel Discussion: A Skills System That Works for Wales - Contextual Challenges and Opportunities**<br>Siân Cartwright, Professor Richard Wyn Jones, Dave Hagendyk, Louise Warde Hunter, Gwyneth Sweatman |
| 10.00 - 10.15 | **Ministerial Address:**<br>Jeremy Miles MS, Minister for Education and Welsh Language |
| 10.15 - 10.30 | **In conversation:** Jeremy Miles MS and Jeff Greenidge |
| 10.30 - 10.45 | **Headline Sponsor:** Angharad Lloyd-Beynon, City & Guilds |
| 10.45 - 11.30 | **Refreshments, Networking and Exhibitions** |
| 11.30 - 12.30 | **MORNING WORKSHOPS** |
| | Sophia **1.** Looking towards an Anti-Racist Wales 2030<br>Ballroom **2.** Building a VET strategy for Wales<br>Roath **3.** Shaping a bilingual future for further education<br>Victoria **4.** Navigating the opportunities and challenges of AI in colleges |
| 12.30 - 1.30 | **Lunch, Networking and Exhibitions** |
| 1.30 - 2.30 | **AFTERNOON WORKSHOPS** |
| | Ballroom **5.** How international visits and partnerships can enhance and enrich learning and teaching across the sector<br>Sophia **6.** Active Wellbeing in FE: Active Colleges - Active Lives - Active Wales<br>Victoria **7.** Tackling peer-on-peer sexual harassment in further education<br>Roath **8.** New Futures Wales: Supporting women into tech |
| 2.30 - 3.00 | **Refreshments, Networking and Exhibitions** |
| 3.00 - 3.05 | **Afternoon Welcome:** Lisa Thomas, Vice Chair, ColegauCymru |
| 3.05 - 3.30 | **Panel Discussion: The Learner Experience**<br>Rocio Cifuentes, Lilly Phillips, Orla Tarn, Lisa Thomas |
| 3.30 - 4.00 | **Conference Reflections and Future Thinking**<br>**In conversation:** Simon Pirotte and Suzy Davies |
| 4.00 - 4.15 | **Closing Address**: Guy Lacey, ColegauCymru Chair |
| 4.15 | **Conference Closes** |

City & Guilds

## Building Futures

Everything we do is focused on developing and delivering high-quality training, qualifications, assessments and credentials that lead to jobs and meet the changing needs of industry.

## Adeiladu Dyfodol

Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar ddatblygu a darparu hyfforddiant, cymwysterau, asesiadau a thystlythyrau o ansawdd da sy'n arwain at swyddi ac yn diwallu'r anghenion newidiol mewn diwydiannau.

**cityandguilds.com**



# Siaradwyr / Speakers

## Guy Lacey

Prif Weithredwr a Phennaeth Coleg Gwent / Cadeirydd ColegauCymru
Chief Executive and Principal Coleg Gwent / ColegauCymru Chair



Penodwyd Guy yn Brif Weithredwr/ Pennaeth Coleg Gwent ym mis Awst 2015. Fe raddiodd Guy o Brifysgol Oxford Brookes ac mae ganddo gymwysterau ôl-raddedig mewn Addysg Uwchradd o Brifysgol Caerfaddon. Mae Guy wedi treulio 25 mlynedd mewn ystod o ysgolion a cholegau yn y DU. Mae wedi gweithio fel arholwr TGAU ar gyfer Cambridge Assessment ac wedi gweithio fel Arolygydd cymheiriaid gydag Estyn ers dros ddeng mlynedd. Ef yw Cadeirydd ColegauCymru a chafodd ei benodi'n Ddirprwy Raglaw Gwent yn 2021.

Guy was appointed CEO/Principal of Coleg Gwent in August 2015. He graduated from Oxford Brookes University and has post graduate qualifications in Secondary Education from Bath University. He has spent 25 years in several UK schools and colleges. Guy has worked as a GCSE examiner for Cambridge Assessment and worked as a peer Inspector with Estyn for over ten years. He is Chair of ColegauCymru and was appointed a Deputy Lieutenant of Gwent in 2021.

## David Hagendyk

Prif Weithredwr, ColegauCymru
Chief Executive, ColegauCymru



Cyn cael ei benodi'n Brif Weithredwr ColegauCymru ym mis Hydref 2022, treuliodd David pump mlynedd yn Sefydliad Dysgu a Gwaith fel Cyfarwyddwr Cymru. Bu hefyd yn gweithio am saith mlynedd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru. Cyn hyn bu'n Swyddog Cyswllt Gwleidyddol i Undeb Prifysgolion a Choleg Cymru, ac fel Pennaeth Polisi Llafur Cymru. Mae gan David dros 20 mlynedd o brofiad yn gweithio ym mywyd cyhoeddus Cymru, gyda chefndir cryf mewn gwleidyddiaeth a phrofiad o ddatblygu polisi.

Before being appointed Chief Executive of ColegauCymru in October 2022, David spent five years at the Learning and Work Institute as the Director for Wales. He also worked for seven years as the General Secretary of Welsh Labour. Prior to this he was Political Liaison Officer for the University and College Union Cymru, and Welsh Labour Head of Policy. David has over 20 years' experience working in Welsh public life, with a strong background in politics and experience of policy development.

## Gwyneth Sweatman

Pennaeth Materion Cyhoeddus (Cymru), Ffederasiwn Busnesau Bach
Head of Public Affairs (Wales), Federation of Small Businesses



Gwyneth yw Pennaeth Materion Cyhoeddus Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru. Cyn hynny, bu Gwyneth yn Gadeirydd PAC, corff cynrychioli materion cyhoeddus mwyaf Cymru. Mae wedi gwasanaethu fel ymddiriedolwr i UCM ac wedi eistedd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ogystal â gwasanaethu fel aelod o Gyngor HEFCW yn ystod ei chyfnod fel Llywydd UCM Cymru. Gweithiodd Gwyneth hefyd fel Uwch Reolwr Cyfrifon i gwmni cysylltiadau cyhoeddus Grayling, gan gynghori cleientiaid ar eu hymgysylltiad â'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

Gwyneth is Head of Public Affairs for FSB Wales. Previously, Gwyneth served as Chair of PAC, Wales' largest public affairs representative body. She has served as a trustee for the NUS and sat on the Board of Directors for Coleg Cymraeg Cenedlaethol, as well as serving as a member of HEFCW Council during her time as President of NUS Wales. Gwyneth has also worked as a Senior Account Manager for Grayling PR firm, advising clients on their engagement with the Senedd and Welsh Government.

## Siân Cartwright

Swyddog Cenedlaethol TUC Cymru
Wales TUC Cymru National Officer



Yn gyn Bennaeth Cysylltiadau Diwydiannol ac wedi hynny yn Bennaeth Addysg a Hyfforddiant yn undeb gyrwyr trenau ASLEF, dechreuodd Siân ei swydd yn TUC Cymru 17 mlynedd yn ôl. Mae Siân wedi gweithio ym myd addysg ac wedi darlithio yn y sectorau addysg uwch a phellach. Astudiodd Siân am ddiploma mewn Astudiaethau Undebau Llafur yng Ngholeg Addysg Uwch Gwent cyn ennill Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ddiweddarach enillodd gymhwyster addysgu TAR (Addysg Bellach).

Formerly Head of Industrial Relations and subsequently Head of Education and Training at the train drivers' union ASLEF, Siân took up her post at Wales TUC 17 years ago. Siân has worked in education and lectured in both the higher and further education sectors. Siân studied for a diploma in Trade Union Studies at Gwent College of Higher Education before obtaining a First-Class Honours Degree in History at Cardiff University. She later obtained a PGCE (FE) teaching qualification.

# Siaradwyr / Speakers

## Yr Athro / Professor Richard Wyn Jones

Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd
Director of Cardiff University's Wales Governance Centre



Richard yw Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd, ac yn ddiweddar ymddiswyddodd fel Deon Materion Cyhoeddus y brifysgol ar ôl degawd yn y rôl. Mae ei waith yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth Cymru, gwleidyddiaeth ddatganoledig yn y DU a chenedlaetholdeb. caiff ei ystyried fel un o sylfaenwyr Astudiaethau Diogelwch Feirniadol. Mae Richard yn Gymrawd Gymdeithas Ddysgedig Cymru ac Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Richard is the Director of Cardiff University's Welsh Governance Centre, and recently stepped down as the University's Dean of Public Affairs after a decade in the role. His work focuses on Welsh politics, devolved politics in the UK and nationalism. He is regarded as one of the founders of Critical Security Studies. Richard is also a Fellow of the Learned Society of Wales and the Academy of Social Sciences.

## Louise Warde Hunter

Pennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Metropolitan Belfast
Principal and Chief Executive, Belfast Metropolitan College



Louise yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Metropolitan Belfast, y coleg addysg bellach mwyaf yng Ngogledd Iwerddon. Yn uwch was sifil am dros 13 mlynedd, bu Louise yn gweithio ar draws ystod o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys Addysg, Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Chyfiawnder. Louise oedd Hyrwyddwr Rhyw Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon (NICS) a Chadeirydd Rhwydwaith Merched NICS. Yn ystod seibiant gyrfa 3 blynedd, bu Louise yn gweithio fel Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Plant ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon i elusen plant yn y DU.

Louise is Principal and CEO of Belfast Metropolitan College, the largest FE college in Northern Ireland. A senior civil servant for over 13 years, Louise worked across a range of government departments including Education, Agriculture, Environment and Justice. Louise was the Gender Champion for the Northern Ireland Civil Service (NICS) and Chair of the NICS Women's Network. During a 3-year career break, Louise worked as Strategic Director of Children's Services covering Scotland and Northern Ireland for a major UK children's charity.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# CYNLLUN GWREIDDIO

## Creu Cymuned o Staff Dwyieithog
## Building a Bilingual Staff Community

Cynllun newydd y Coleg Cymraeg ar gyfer staff y sector ôl-16.

*The Coleg Cymraeg's new scheme for staff in the post-16 sector.*

**Hoffech chi dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf, cyfleoedd hyfforddiant ac adnoddau dwyieithog?**

*Would you like to receive the latest information, training opportunities and bilingual resources?*

**Beth bynnag eich sgiliau Cymraeg, ymunwch â Chynllun Gwreiddio heddiw i fod yn rhan o rwydwaith genedlaethol.**

*Whatever your Welsh language skills, join today to be a part of a national network.*

**colegcymraeg.ac.uk/gwreiddio**

CYMRAEG

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**



ColegauCymru Rhyngwladol
CollegesWales International

**Creu Dinasyddion a Rhwydweithiau Byd-eang**

**Creating Global Citizens and Networks**





Chwaraeon ColegauCymru
CollegesWales Sport

**Colegau Actif, Bywydau Actif, Cymru Actif**

**Active Colleges, Active Lives, Active Wales**



# Siaradwyr / Speakers

## Jeremy Miles AS MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Etholwyd Jeremy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer etholaeth Castell-nedd ym mis Mai 2016 fel ymgeisydd Llafur a'r Blaid Gydweithredol. Ym mis Mai 2021 fe'i penodwyd yn Weinidog dros Addysg a'r Gymraeg. Ar ôl graddio, bu Jeremy yn dysgu'r gyfraith ym Mhrifysgol Warsaw yng Ngwlad Pwyl. Yn ddiweddarach, bu'n gweithio fel cyfreithiwr yn Llundain ac yna daliodd uwch swyddi cyfreithiol a masnachol mewn busnesau yn y sector cyfryngau. Mae Jeremy wedi bod yn ymddiriedolwr ac ysgrifennydd Sefydliad Bevan.

Jeremy was elected to the National Assembly for Wales for the Neath constituency in May 2016 as the Labour and Co-operative party candidate.
In May 2021 he was appointed Minister for Education and Welsh Language.
After graduating, Jeremy taught law at Warsaw University in Poland. Later, he practised as a solicitor in London and then held senior legal and commercial posts in media sector businesses. Jeremy has been a trustee and secretary of the Bevan Foundation.

## Jeffrey Greenidge

Cyfarwyddwr/Ymddiriedolwr ColegauCymru a Chadeirydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Director/Trustee ColegauCymru and Chair of the Learning and Work Institute



Dechreuodd gyrfa Jeff ym myd addysg fel athro yng Nghymoedd De Cymru, yna fel gwas sifil yn datblygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Ieithoedd Modern. Treuliodd dair blynedd yn hyfforddi myfyrwyr TAR ym Mhrifysgol Abertawe a datblygodd fentrau galwedigaethol a symudedd Ewropeaidd yn CBAC. Ym 1999, ymunodd Jeff ag Ufi i helpu i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol cyntaf y DU o ganolfannau dysgu ar-lein, Learndirect. Yn 2015, sefydlodd raglenni hyfforddi ac entrepreneuriaeth ar gyfer unigolion a busnesau, ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Fwrdd nifer o Felinau trafod Addysg a Hyfforddiant y DU.

Jeff's career in education began as a teacher in the South Wales Valleys, then as a civil servant developing the National Curriculum for Modern Languages.
He spent three years training PGCE students at Swansea University and developed European vocational and mobility initiatives at the WJEC. In 1999, Jeff joined Ufi to help set up the first UK national network of learning online centres, Learndirect. In 2015, he set up coaching and entrepreneurship programmes for Individuals and businesses, and currently sits on the Board of several UK Education and Training think Tanks.

challenges abroad

# Creating the next generation of Global Citizens

**At Challenges Abroad, our programmes help learners to broaden horizons, step outside their comfort zone and gain skills which prepare them for success in a global world.**

## What We Offer:

- Global Citizenship programmes
- Tailor made study tours
- Funding application support
- Exemplary safety and support
- Comprehensive pre departure brefings
- Dedicated account manager
- Participatation qualifications



## Our Participant Impact:

91%
Increased Confidence

95%
Improved Communication Skills

91%
Increased Resilience

www.challengesabroad.co.uk

info@challengesabroad.co.uk

## Angharad Lloyd Beynon

Rheolwr Polisi a Rhanddeiliaid, City & Guilds
Policy and Stakeholder Manager, City & Guilds



Mae Angharad yn Rheolwr Polisi a Rhanddeiliaid yn City & Guilds ac yn gofalu am Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i alluogi pobl a sefydliadau i ddatgloi eu potensial a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd angen ar gyfer twf personol ac economaidd.

Mae Angharad yn Aelod o CALC ac ar Fwrdd Arweinyddiaeth BITC. Mae hi hefyd yn aelod o Fwrdd Grŵp Thrive Cymru ac yn Gyd-gadeirydd FAB Cymru.

Angharad is a Policy and Stakeholder Manager at City & Guilds and looks after Wales, Scotland, Northern Ireland and Ireland. Angharad works closely with key stakeholders to ensure that people and organisations unlock their potential and develop the knowledge and skills needed for personal and economic growth.

Angharad is a Liveryman for the WLCOW and a member of BITC Wales Leadership Board. She is also a Board member for Thrive Group Wales and Co-chair of FAB Wales.

## Lisa Thomas

Prif Weithredwr/Pennaeth, Y Coleg Merthyr Tudful, Is-Gadeirydd ColegauCymru
Chief Executive/Principal, The College Merthyr Tydfil and ColegauCymru Vice Chair



Penodwyd Lisa yn Bennaeth a Phrif Weithredwr Y Coleg Merthyr Tudful ym mis Medi 2018, ac mae wedi gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd ColegauCymru ers Ionawr 2023. Ymunodd Lisa â'r sector addysg bellach fel Pennaeth Cynorthwyol ym mis Medi 2012. Mae'n athrawes gymwysedig ac mae ganddi radd Meistr Gradd mewn Addysg. Gan ddechrau ei gyrfa fel athrawes Hanes yn 1993, mae gan Lisa dros 25 mlynedd o brofiad o rolau arwain a rheoli o fewn addysg uwchradd ac addysg bellach a llywodraeth leol.

Lisa was appointed as Principal and Chief Executive at the College Merthyr Tydfil in September 2018, and has served as Deputy Chair of ColegauCymru since January 2023. Lisa joined the FE sector as Assistant Principal in September 2012. She is a qualified teacher and has a Masters Degree in Education. Lisa has over 25 years' experience of leadership and management roles within secondary and further education and local government. She is also an experienced Estyn peer inspector.

# Gweithdai'r Bore / Morning Workshops

## 1 Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Colegau Cymru Equality and Diversity Group

### Edrych tuag at Gymru Wrth-hiliol 2030

*Cadeiryddion: Mike James a Yusuf Ibrahim*
*Cyflwynwyr: Josephine Grech, Sudhuf Khan ac Aminur Rahman*

Bydd y sesiwn hon yn amlinellu rôl yr arweinyddiaeth a'r gwersi allweddol a ddysgwyd gan weithwyr proffesiynol ym myd addysg sydd wedi cychwyn ar eu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac sydd wedi arwain mentrau allweddol ar draws y sector. Byddwn yn trafod ein hymrwymiad i sicrhau newid sefydliadol trawsnewidiol i alluogi Cymru wirioneddol Wrth-hiliol erbyn 2030, er budd dysgwyr, staff a'n cymunedau.

### Looking towards an Anti-Racist Wales 2030

*Chairs: Mike James and Yusuf Ibrahim*
*Presenters: Josephine Grech, Sudhuf Khan and Aminur Rahman*

This session will outline the role of leadership and key learnings from professionals in education who have embarked on their Anti-Racist Wales Action Plan and have led key initiatives across the sector. We'll discuss our commitment to effect transformational organisational change to enable a truly Anti-racist Wales by 2030, for the benefit of learners, staff and our communities.

## 2 Building a VET strategy for Wales

### Adeiladu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) i Gymru

*Cyflwynwyr: Guy Lacey, Barry Walters a Yana Williams*

Bydd y gweithdy yn dechrau'r drafodaeth am ddiben a chynnwys strategaeth VET i Gymru, ac yn trafod rôl ColegauCymru yn ei datblygiad.

### Building a VET Strategy for Wales

*Presenters: Guy Lacey, Barry Walters and Yana Williams*

The workshop will begin the debate about the purpose and content of a VET strategy for Wales, and discuss the role of ColegauCymru in its development.

## 3 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

### Llunio dyfodol dwyieithog i addysg bellach

*Cyflwynwyr: Lisa O'Connor a Nia Phillips*

Byddwn yn trafod rhai o'r prif ddatblygiadau ers cyflwyno strategaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 'Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau. Bydd cyfle i fynychwyr fyfyrio ar y llwyddiannau yn eu sefydliadau unigol ac ystyried y camau nesaf wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a Chymraeg er mwyn bodloni'r angen am weithlu all weithio'n hyderus mewn dwy iaith.

### Shaping a bilingual future for further education

*Presenters: Lisa O'Connor and Nia Phillips*

We'll discuss key developments since the introduction of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol strategy 'Towards Welsh 2050: One million speakers' to the further education and apprenticeship sector. Attendees will also have the opportunity to reflect on the successes in their individual organisations and to consider next steps in developing bilingual and Welsh language provision to meet the need for a workforce that can work confidently in two languages.

## 4 Jisc

### Llywio cyfleoedd a heriau AI mewn colegau

*Cyflwynwr: Michael Webb*

Nod canolfan genedlaethol Jisc ar gyfer AI mewn addysg drydyddol yw cynorthwyo sefydliadau i fabwysiadu AI mewn modd cyfrifol a moesegol. Rydym yn cydweithio ar draws y sector i gynorthwyo sefydliadau i lywio'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan AI. Bydd y sesiwn hon yn adolygu cryfderau a gwendidau technoleg AI gyfredol, yn archwilio arferion a dulliau gweithredu sy'n dod i'r amlwg, ac yn arsylwi ar esblygiad technolegau wrth i nifer cynyddol o gymwysiadau AI gael eu rhyddhau. Byddwn yn archwilio sut mae colegau eisoes yn profi buddion o'u hymgysylltiad ag AI.

### Navigating the opportunities and challenges of AI in colleges

*Presenter: Michael Webb*

Jisc's national centre for AI in tertiary education aims to assist institutions in adopting AI in a responsible and ethical manner. We collaborate across the sector to aid institutions in navigating the challenges and opportunities presented by AI. This session will review the strengths and weaknesses of current AI technology, examine emerging practices and approaches, and observe the evolution of technologies as an increasing number of AI applications are released. We'll explore how colleges are already experiencing benefits from their engagement with AI.

aspire2be.co.uk | info@aspire2be.co.uk

Aspire 2Be.

# Cyflawni Newid Digidol o fewn Addysg
# Delivering Digital Change in Education

**DYSGU PROFFESIYNOL**
**PROFESSIONAL LEARNING**

- Prentisiaethau i Addysgwyr
- Apprenticeships for Educators
- Datblygu Sgiliau Digidol
- Digital Skills Development
- Dysgu ac Addysgu gyda Thechnoleg
- Teaching & Learning with Technology

**DATBLYGIAD YSGOL**
**SCHOOL DEVELOPMENT**

- Adolygiadau Newid Digidol
- Digital Change Reviews
- Strategaeth EdTech
- EdTech Strategy
- Dylunio eDdysgu
- eLearning Design

ColegauCymru
CollegesWales

Scan me

**EVENT FEEDBACK**

bit.ly/ccacafternoon

Aspire 2Be.



Jisc
Shaping the digital future together
Talk to us about your digital transformation journey
jisc.ac.uk/wales
W jisc.ac.uk
x.com/jisc
facebook.com/jiscsocial




HWB
SGILIAU HANFODOL
Prentisiaethau
Hoffech chi hybu faint mae eich dysgwyr yn gwneud drwy'r Gymraeg?
Do you need to increase the amount your learners undertake in Welsh?
Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn gyfle euraidd i wneud hwn, ac fe all yr Urdd helpu!
Cysylltwch gyda ni i drafod sut allem gydweithio i ddarparu Sgiliau Hanfodol drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.
Essential Skills are a golden opportunity to increase this, and the Urdd can help!
Contact us today to discuss how we can work together in providing Welsh language and bilingual ESQ's.
Sganiwch am fwy o wybodaeth
Sgan for more information
@PrentisUrdd | hwbsgiliau@urdd.org

## 5 Challenges Abroad / Nexgen

### Sut y gall ymweliadau a phartneriaethau rhyngwladol wella a chyfoethogi dysgu ac addysgu ar draws y sector

*Cadeirydd: Andrew Cornish*
*Cyflwynwyr: Neil Finnie a Lizzie George*

Bydd y gweithdy ar y cyd gan Nexgen Careers a Challenges Abroad yn archwilio sut y gall ymweliadau a phartneriaethau rhyngwladol wella a chyfoethogi dysgu ac addysgu ar draws y sector, yn ogystal â thrafod dyfodol gwaith, pwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a datblygiad proffesiynol. Bydd y gweithdy hefyd yn cynnwys mewnbwn cyfranogwyr o safbwynt staff a dysgwyr.

### How international visits and partnerships can enhance and enrich learning and teaching across the sector

*Chair: Andrew Cornish*
*Presenters: Neil Finnie and Lizzie George*

The joint workshop from Nexgen Careers and Challenges Abroad will explore how international visits and partnerships can enhance and enrich learning and teaching across the sector, as well as discuss the future of work, the importance of transferable skills and professional development. The workshop will also include participant input from both a staff and learner perspective.

## 6 Lles Actif / Active Wellbeing

### Lles Actif mewn AB: Colegau Actif – Bywydau Actif – Cymru Actif

*Cadeirydd: Rob Baynham*
*Panelwyr: Brian Davies, Sharon James, James Martin*
*Llysgenhadon Ifanc: Alfie Fairhead, Luke Thomas ac Ellis Griffiths*

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu Lles Actif yn y sector addysg bellach yng Nghymru yn y dyfodol. Darperir mewnweledidiad a dysgu gan ColegauCymru a rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol ac unigol. Byddwn yn gofyn cwestiynau allweddol ynghylch y camau nesaf ar gyfer Lles Actif a'r potensial i greu cymunedau coleg iach a mwy actif, gan gefnogi gwell llesiant ac iechyd meddwl.

### Active Wellbeing in FE: Active Colleges - Active Lives – Active Wales

*Chair: Rob Baynham*
*Panellists: Brian Davies, Sharon James, James Martin*
*Young Ambassadors: Alfie Fairhead, Luke Thomas and Ellis Griffiths*

This session will look at the future challenges facing Active Wellbeing in the FE sector in Wales. Insight and learning will be provided by ColegauCymru and national, regional and individual level stakeholders. We'll ask key questions around the next steps for Active Wellbeing and the potential to create healthier and more active college communities, supporting better wellbeing and mental health.

## 7 Estyn

### Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach

*Cyflwynwyr: Ian Dickson ac Alice Churm*

Bydd y sesiwn hon yn archwilio adroddiad diweddar Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellach, a'i argymhellion.

### Tackling peer-on-peer sexual harassment in further education

*Presenters: Ian Dickson and Alice Churm*

This session will explore Estyn's recent report into peer-on-peer sexual harassment among 16 to 18-year-old learners in further education, and its recommendations.

## 8 L&WI / Chwarae Teg

### Dyfodol Newydd Cymru: Cefnogi menywod i fyd technoleg

*Cadeirydd: Joshua Miles*
*Cyflwynwyr: Hannah Carmichael a Beth Baldwin*

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio ar gyfer newid gyrfa. Byddwn yn clywed am y profiadau a'r gwersi o'r prosiectau peilot 'Dyfodol Newydd' ledled y DU, ac am y peilot yng Nghymru sydd wedi helpu menywod i newid gyrfaoedd tuag at y sectorau digidol a thechnoleg. Bydd y sesiwn yn tynnu sylw at y pethau sydd eu hangen i wneud newid gyrfa yn ymarferol i unigolion ledled Cymru a'r DU.

### New Futures Wales: Supporting women into tech

*Chair: Joshua Miles*
*Presenters: Hannah Carmichael and Beth Baldwin*

This session will focus on what works for career change. We'll hear about the experiences and lessons from the 'New Futures' project pilots across the UK, and about the pilot in Wales which has helped women change careers towards the digital and tech sectors. The session will draw out the calls to action needed to make career switching viable for individuals across Wales and the UK.

# Siaradwyr / Speakers

## Orla Tarn

Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
NUS Wales President



Orla yw Llywydd UCM Cymru 2022-2024 ac mae'n cynrychioli lleisiau mwy na 250,000 o fyfyrwyr, dysgwyr a phrentisiaid ledled Cymru. Cyn hynny, nhw oedd Is-lywydd Myfyrwyr ôl-raddedig ac Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd. Mae Orla yn hyrwyddwr brwd dros lais y myfyriwr a'r dysgwr, ac yn eiriolwr dros sicrhau bod y corff ehangach o fyfyrwyr yn cael dweud eu dweud am eu profiad dysgu. Maent yn ymgysylltu'n rheolaidd â'u haelodau Undebau Myfyrwyr ac yn rhoi cymorth i Swyddogion Sabothol, a myfyrwyr mewn swyddi arweinyddiaeth yn nhimau Ymgysylltu â Dysgwyr y Coleg.

Orla is the NUS Wales President 2022-2024 and represents the voices of more than 250,000 students, learners and apprentices across Wales. They were previously Vice President Postgraduate Students, and Vice President Societies and Volunteering at Cardiff Students' Union. Orla is a champion of the student and learner voice, and engages regularly with their member Students' Unions providing support to Sabbatical Officers, and students in leadership positions in College Learner Engagement teams.

## Rocio Cifuentes

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Penodwyd Rocio Cifuentes yn Gomisiynydd Plant Cymru ym mis Ebrill 2022. Cyn hynny, Rocio oedd Prif Weithredwr elusen Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Cymru, elusen y gwnaeth hi helpu i'w sefydlu yn 2005. Roedd Rocio hefyd yn gwasanaethu ar Bwyllgor Cymru dros y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chadeiriodd Glymblaid Ffoaduriaid Cymru. Mae hi hefyd wedi dysgu mewn coleg, wedi gweithio ym maes digartrefedd ieuenctid ac wedi sefydlu elusen ar gyfer pobl ifanc â galluoedd cymysg gan gynnwys anableddau o'r enw Mixtup.

Rocio Cifuentes was appointed Children's Commissioner for Wales in in April 2022. Previously, Rocio was Chief Executive of the charity Ethnic Minorities and Youth Support Team (EYST) Wales, a charity she helped to set up in 2005. Rocio also served on the Wales Committee for the Equality and Human Rights Commission and chaired the Welsh Refugee Coalition. She has also taught in a college, worked in youth homelessness and set up a charity for young people with mixed abilities including disabilities called Mixtup.

# Siaradwyr / Speakers

## Simon Pirotte

Prif Weithredwr, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Chief Executive, Commission for Tertiary Education and Research



Simon oedd Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Penybont o 2013 tan 2023. Yn 2020, derbyniodd OBE am ei wasanaethau i addysg bellach ac addysg uwch. Yn raddedig o Aberystwyth, gyda MSc mewn Rheolaeth o Brifysgol De Cymru, mae Simon wedi gweithio ym myd addysg ers dros 30 mlynedd. Enillodd Simon wobr Cyfarwyddwr y Flwyddyn ar gyfer y Sector Cyhoeddus 2018 Sefydliad y Cyfarwyddwyr (DU). Coleg Penybont oedd y Coleg addysg bellach yn y DU sydd â'r sgôr uchaf yn y Times 100 Cwmni Gorau (nid er elw) i weithio iddynt, yn 2017 a 2020.

Simon was the Principal and Chief Executive of Bridgend College from 2013 until 2023. In 2020, he received an OBE for his services to further education and higher education. An Aberystwyth University graduate, with an MSc in Management from USW, Simon has worked in education for over 30 years. Simon won the 2018 Institute of Directors (UK) Director of the Year for the Public Sector. Bridgend College was the highest ranked UK FE College in the Times 100 Best Companies (not for profit) to work for, in 2017 and 2020.

## Suzy Davies

Aelod Bwrdd ColegauCymru
ColegauCymru Board Member



Yn gyfreithiwr cymwysedig, dilynodd Suzy yrfaoedd ym maes marchnata'r celfyddydau ac fel uwch gyfreithiwr. Treuliodd ddeng mlynedd fel Aelod o'r Senedd, gan gynnwys cyfnod fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg.

Suzy yw Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru, ac aelod o Fwrdd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod. Mae hi hefyd yn aelod o Fwrdd Archwilio a Risg y Comisiynydd Plant, ac yn un o sylfaenwyr Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru. Yn 2022, fe'i penodwyd yn aelod o Fwrdd S4C.

A qualified lawyer, Suzy followed careers in arts marketing and as a senior solicitor. She spent ten years as a Member of the Senedd, including a term as Shadow Minister for Culture, Heritage and the Welsh Language.

Suzy is Chair of the Wales Tourism Alliance, and Board member with Women's Equality Network. She is also a member of the Children's Commissioner's Audit and Risk Board, and a founder member of the Wales International Film Festival. In 2022, she was appointed as a member of the S4C Board.




# Are you an outstanding teacher in STEM, or know somebody who is?

## CALLING STEM TEACHERS IN WALES
### APPLICATIONS FOR THE TECHNICAL TEACHING FELLOWSHIPS* ARE OPEN.

Teachers who have excellent practice in Science, Technology, Engineering and Maths (STEM) subjects in the Further Education sector across the UK are eligible.

Successful applicants receive an award of **£5,000 – £15,000** to support knowledge transfer activity and ensure remission time is guaranteed. They are expected to develop 'Pathways to Impact' activity action plans; disseminate their work at national conferences and via regional networks; and contribute to a final report written to engage technical education in their area of practice. They are supported by a programme mentor and with developmental workshops.

**FIND OUT MORE ABOUT FELLOWSHIPS HERE**

**Applications close at 5pm on 24 November 2023.**

ROYAL COMMISSION EXHIBITION OF 1851

EDUCATION & TRAINING FOUNDATION

*Awarded jointly by the Education and Training Foundation and Royal Commission for the Exhibition on 1851 (Royal Commission)

CREATE, INNOVATE and INSPIRE with 3D technologies for Education

CREATE Education





CREATE Education Project

www.createeducation.com

01257 276 116

Agored Cymru

Supporting the further education sector in Wales
Proud sponsor of the Colegau Cymru Annual Conference 2023

Cefnogi'r sector addysg bellach yng Nghymru
Noddwr balch o Gynhadledd Flynyddol Colegau Cymru 2023

www.agored.cymru businessdevelopment@agored.cymru

@agoredcymru



**Qualifications, certification and skills solutions by engineers for engineering success.**

Find out how we deliver support to our valued providers throughout Wales at **www.eal.org.uk**.

eal® Part of the Enginuity Group

# Noddwyr / Sponsors

## City & Guilds

www.cityandguilds.com

Ers dros 140 o flynyddoedd, rydyn ni wedi gweithio gyda phobl, sefydliadau ac economïau i'w helpu i ganfod ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu. Rydyn ni'n deall y ddolen honno sy'n gallu newid bywydau rhwng datblygu sgiliau, symudedd cymdeithasol, ffyniant a llwyddiant. Mae popeth rydyn ni'n ei wneud yn canolbwyntio ar ddatblygu a darparu hyfforddiant, cymwysterau ac asesiadau o ansawdd uchel sy'n arwain at swyddi ac sy'n diwallu newidiadau yn anghenion diwydiant.

For over 140 years we have worked with people, organisations and economies to help them identify and develop the skills they need to thrive. We understand the life changing link between skills development, social mobility, prosperity and success. Everything we do is focused on developing and delivering high-quality training, qualifications, assessments and credentials that lead to jobs and meet the changing needs of industry.

## Ein hymrwymiad i ddyfodol mwy cynaliadwy
## Our commitment to a more sustainable future

ColegauCymru
CollegesWales

### I gefnogi cynlluniau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i Sero Net a Chymru wyrddach, gryfach a thecach, rydym wedi cymryd camau tuag at wneud y Gynhadledd hon yn fwy cynaliadwy

Lleoliad ecogyfeillgar - Trwy weithredu ar yr hinsawdd a stiwardiaeth cyrchfan, mae Gwestai'r Hilton yn bwriadu paratoi'r ffordd at ddyfodol Sero Net i'r cwmni a'r diwydiant teithio a thwristiaeth byd-eang

Lleoliad - Wedi'i ddewis gyda mynediad rhagorol i drafnidiaeth gyhoeddus. Anogir cynrychiolwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu opsiynau teithio llesol lle bo modd

Arlwyo - Canolbwyntio ar leihau'r defnydd o gynnyrch anifeiliaid, sy'n dda i'r amgylchedd, lles anifeiliaid ac iechyd. Cynnyrch o ffynonellau lleol lle bo modd

Lleihau'r defnydd o bapur gyda Rhaglen Gynadledda ddi-bapur

Dŵr - Dewis dŵr tap yn lle dŵr potel

Mae ColegauCymru yn aelod o Cynnal Cymru sy'n darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i droi nodau cynaliadwyedd yn weithredoedd

### In support of the ambitious Welsh Government journey to Net Zero and a greener, stronger, fairer Wales, we've taken proactive steps towards making this Conference more sustainable

Eco-friendly venue - Through climate action and destination stewardship, Hilton Hotels intend to pave the way to a Net Zero future for the company and the global travel and tourism industry

Location - Venue chosen with excellent access to public transport. Delegates encouraged to make use of public transport or active travel options where possible

Conference Catering - focussed on reducing the use of animal products, which is good for the environment, animal welfare and health. Locally sourced produce where possible

Reducing the use of paper with a paperless Conference Programme

Water - Opting for tap water in place of bottled water

ColegauCymru is a member of Cynnal Cymru who a provide advice, training and connections to turn sustainability aims into action

# Noddwyr / Sponsors

## Taith

www.taith.wales

Taith yw rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Taith is the Welsh Government funded international learning exchange programme for Wales.

## EWC

www.ewc.wales

Y corff rheoleiddio proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Mae Addysgwyr Cymru yn dod â chyfleoedd gyrfa, hyfforddiant a swyddi at ei gilydd ar gyfer sector addysg Cymru.

The independent, professional regulator for the education workforce in Wales. Educators Wales brings together career, training, and job opportunities for Wales' education sector.

## Agored Cymru

www.agored.cymru

Mae Agored Cymru yn Gorff Dyfarnu Cymraeg y mae ei gymwysterau a'i unedau dwyieithog yn cael eu cydnabod yn eang, eu gwerthfawrogi a'u parchu gan bob coleg addysg bellach yng Nghymru.

Agored Cymru is a Welsh awarding body whose bilingual qualifications and units are widely recognised, valued and respected by all FE Colleges in Wales.

## Education & Training Foundation

www.et-foundation.co.uk

Rydym yn cefnogi athrawon ac arweinwyr ar draws y sector Addysg Bellach a Hyfforddiant, i gyflawni eu nodau datblygiad proffesiynol er budd dysgwyr a chyflogwyr.

We support teachers and leaders across the Further Education and Training sector, to achieve their professional development goals for the benefit of learners and employers.

# Noddwyr / Sponsors

### Learning and Work Institute

www.learningandwork.org.uk

Rydym yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

We are an independent policy, research and development organisation dedicated to lifelong learning, full employment and inclusion.

### Jisc

www.jisc.ac.uk

Jisc yw sefydliad dielw sector addysg bellach a sgiliau'r DU ar gyfer gwasanaethau ac atebion digidol, sy'n hyrwyddo pwysigrwydd a photensial technolegau digidol ar gyfer addysg ac ymchwil yn y DU.

Jisc is the UK higher, further education and skills sectors' not-for-profit organisation for digital services and solutions, championing the importance and potential of digital technologies for UK education and research.

### Coleg Cymraeg Cenedlaethol

www.colegcymraeg.ac.uk

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol creates training and study opportunities through the medium of Welsh by working with further education colleges, universities, apprenticeship providers and employers.

### Challenges Abroad

www.challengesabroad.co.uk

Mae Challenges Abroad yn fenter gymdeithasol, gyda chenhadaeth i greu dinasyddion byd-eang a fydd, fel arweinwyr y dyfodol, yn helpu i adeiladu byd tecach.

Challenges Abroad is a social enterprise, with a mission to create global citizens who, as future leaders will help build a fairer world.

# Noddwyr / Sponsors

## Pearson

www.pearson.com

Pearson yw cwmni dysgu mwyaf blaenllaw'r byd. Credwn mai dysgu yw'r grym mwyaf pwerus dros newid yn y byd.

We at Pearson are the world's leading learning company. We believe that learning is the most powerful force for change in the world.

## CBAC / WJEC

www.wjec.co.uk

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn darparu cymwysterau dwyieithog y gellir ymddiried ynddynt, cymorth arbenigol syml, ac asesiadau dibynadwy i ysgolion a cholegau ledled y wlad.

As Wales' largest awarding body, WJEC provide trusted bilingual qualifications, straight-forward specialist support, and reliable assessment to schools and colleges across the country.

## Create Education

www.createeducation.com

Mae CREATE Education yn ymroddedig i roi mynediad i Dechnoleg 3D i bobl ifanc trwy gefnogi addysgwyr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yn y DU ac Iwerddon.

CREATE Education is dedicated to giving young people access to 3D Technology through supporting educators in schools, colleges and universities in the UK & Ireland.

## Aspire 2Be

www.aspire2be.co.uk

Mae Aspire 2Be yn cynnig atebion digidol pwrpasol i yrru ysgolion a sefydliadau yn eu blaen. Rydym yn defnyddio'r technolegau diweddaraf i wneud eich ystafell ddosbarth yn effeithlon, yn ymatebol ac yn addasadwy. Rydym yn credu mewn grymuso pobl trwy ddysgu a datblygu.

Aspire 2Be offers bespoke, digital solutions to drive schools and organisation forward. We harness the latest technologies to make your classroom efficient, responsive, and adaptable. We believe in empowering people through learning and development.

# Noddwyr / Sponsors

## Urdd Gobaith Cymru

www.urdd.cymru

Prentisiaethau

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad sy'n darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc ledled Cymru, o weithgareddau chwaraeon ac eisteddfodau i brentisiaethau a llawer mwy!

Urdd Gobaith Cymru is an organisation that provides opportunities and experiences through the medium of Welsh for young people across Wales, from sports activities and 'eisteddfodau' to apprenticeships and much more!

## Estyn

www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a chanlyniadau i holl ddysgwyr Cymru.

Estyn inspects education and training in Wales.

Our vision is to improve the quality of education and training and outcomes for all learners in Wales.

## EAL

www.eal.org.uk

Part of the Enginuity Group

Y Sefydliad Dyfarnu arbenigol a phartner sgiliau ar gyfer y diwydiant peirianneg a gweithgynhyrchu. Cymwysterau ac ardystiad wedi'u cynllunio a'u cefnogi gan beirianwyr ar gyfer llwyddiant peirianneg.

The specialist Awarding Organisation and skills partner for the engineering and manufacturing industry. Qualifications and certification designed and supported by engineers for engineering success.

ColegauCymru
CollegesWales

**Llais addysg bellach yng Nghymru**
**The voice of further education in Wales**



# Arddangoswyr / Exhibitors

## ATRIWM / ATRIUM

| Lleoliad yr arddangoswr / Exhibitor location | Sefydliad / Organisation |
|---|---|
| 1. | City & Guilds |
| 2. | Education and Training Foundation |
| 3. | Taith |
| 4. | Challenges Abroad |
| 5. | EAL |

## YSTAFELL ARDDANGOS LLAWR GWAELOD / GROUND FLOOR EXHIBITION ROOM

| Lleoliad yr arddangoswr / Exhibitor location | Sefydliad / Organisation |
|---|---|
| 6. | Agored |
| 7. | Create Education |
| 8. & 9. | Aspire 2Be |
| 10. | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |

## ARDAL ARDDANGOS LLAWR CYNTAF / FIRST FLOOR EXHIBITION SPACE

| Lleoliad yr arddangoswr / Exhibitor location | Sefydliad / Organisation |
|---|---|
| 11. | CBAC / WJEC |
| 12. | Estyn |
| 13. | Cyngor y Gweithlu Addysg / Education Workforce Council<br>Addysgwyr Cymru / Educators Wales |
| 14. | Urdd Gobaith Cymru |
| 15. | Pearson |

ColegauCymru
CollegesWales

helo@colegaucymru.ac.uk / hello@collegeswales.ac.uk
**www.colegau.cymru** 𝕏 @colegaucymru #CynhadleddCC23 #CCConference23